# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 27 Mehefin 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 79(v5)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## Cynnig am Ddadl Frys o dan Reol Sefydlog 12.69

Carwyn Jones:

Cytundeb 'Hyder a Chyflenwi' Llywodraeth y DU a Phlaid yr Unoliaethwyr Democrataidd (y DUP)

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Lywodraethu

(90 munud)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Polisi a Deddfwriaeth yr Amgylchedd Hanesyddol - Gohiriwyd i 4 Gorffennaf 2017

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Diweddariad ar Wasanaeth Braenaru 111 y GIG yng Nghymru - Gohiriwyd i 4 Gorffennaf 2017

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Cylchffordd Cymru

(60 munud)

## 7 Dadl: Datgarboneiddio yn y Sector Cyhoeddus

(60 munud)

**NDM6339** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi arweiniad Llywodraeth Cymru o safbwynt rhoi ar waith gamau gweithredu i ddatgarboneiddio sector cyhoeddus Cymru, a hynny'n unol â'i hymrwymiadau statudol o fewn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

2. Yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyflymu'r gwaith o ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus er mwyn rhoi hwb pellach i'r economi carbon isel.

3. Yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o sicrhau bod sector cyhoeddus Cymru'n garbon niwtral erbyn 2030.

4. Yn nodi'r cais am dystiolaeth sydd ar y gweill a fydd yn ceisio sylwadau ynghylch y dull ar gyfer datgarboneiddio'r sector cyhoeddus.

'Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016'

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu mai araf yw'r cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yn ei hymdrechion i bennu Cyllideb Garbon ar gyfer 2016-2020.

Gwelliant 2. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt 4 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn credu bod angen i'r darpariaethau yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy gael mwy o ddylanwad dros Lywodraeth Cymru o ran pennu ei chyllideb ei hun.

Gwelliant 3. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cwmni ynni cenedlaethol di-ddifidend, hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru, gyda'r diben o gynyddu effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu trydan adnewyddadwy yn y sector cyhoeddus fel rhan o'i gylch gwaith.

Gwelliant 4. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys mesurau i leihau llygredd aer fel rhan o'i ffordd o ddatgarboneiddio yn y sector cyhoeddus.

Gwelliant 5. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi cymorth i'r sector cyhoeddus i ddarparu pwyntiau gwefru trydan ar gyfer cerbydau ar safle at ddefnydd cyflogeion ac ymwelwyr.

Gwelliant 6. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi cymorth i gyrff cyhoeddus i ddatgarboneiddio trafnidiaeth drwy ddefnyddio cerbydau hydrogen ac LPG a dyfeisiadau arloesol tebyg.

## 8 Dadl: Cyfnod 4 y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)

(15 munud)

**NDM6351** Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo'r Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru).

**Dogfennau Ategol**
Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Datganiad y Llywydd Yn unol ag Adran 111A(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

## 9 Dadl Frys

(60 munud)

Cytundeb 'Hyder a Chyflenwi' Llywodraeth y DU a Phlaid yr Unoliaethwyr Democrataidd (y DUP)

## 10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 28 Mehefin 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 22 Mehefin, 2017 i'w hateb ar 27 Mehefin 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynd i'r afael â throseddau gwledig? OAQ(5)0692(FM)

**2. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr isadeiledd chwaraeon yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0693(FM)**W**

**3. Hannah Blythyn (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi pobl yng ngogledd-ddwyrain Cymru sy'n byw gyda dementia? OAQ(5)0684(FM)

**4. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal ynglŷn â lleihau'r broblem gynyddol o gamblo eithafol? OAQ(5)0688(FM)**W**

**5. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i gefnogi unigolion sy'n colli eu clyw? OAQ(5)0676(FM)

**6. Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ofal cymdeithasol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0690(FM)

**7. Vikki Howells (Cwm Cynon):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi aelodau'r lluoedd arfog yng Nghwm Cynon sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd ac sydd wedi ymddeol, a'u teuluoedd? OAQ(5)0682(FM)

**8. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd dros y 12 mis nesaf i wella bywydau pobl yng Nghymru sy'n byw gydag anableddau? OAQ(5)0680(FM)

**9. Sian Gwenllian (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ardrethi busnes yn y sector ynni cymunedol? OAQ(5)0686(FM)**W**

**10.** **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am seilwaith trafnidiaeth yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0678(FM)

**11.** **Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru):** Beth yw'r amseroedd aros presennol ar gyfer pobl ifanc sydd am gael gafael ar driniaeth iechyd meddwl? OAQ(5)0677(FM)

**12.** **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch morlyn llanw Bae Abertawe? OAQ(5)0679(FM)

**13.** **Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am recriwtio i'r GIG yng Nghymru? OAQ(5)0683(FM)

**14.** **Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gyfran o drigolion Sir Fynwy a fydd yn gallu derbyn band eang cyflym iawn erbyn diwedd y contract presennol gyda BT Openreach? OAQ(5)0687(FM)

**15.** **Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fargen ddinesig prifddinas-ranbarth Caerdydd? OAQ(5)0691(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

---

**Dydd Mawrth 4 Gorffennaf 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Y Gronfa Triniaethau Newydd - Adroddiad Cynnydd (45 munud)
- Dadl: Ystyried yr achos dros drethi newydd yng Nghymru (60 munud)

**Dydd Mercher 5 Gorffennaf 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 11 Gorffennaf 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth: Cyflogadwyedd (30 munud)
- Dadl: Cyfnod 3 Bil yr Undebau Llafur (Cymru) (90 munud)

**Dydd Mercher 12 Gorffennaf 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Pumed Cynulliad a nodi'r adroddiad cydymffurfiaeth ar gyfer y cyfnod 2015-2017 (60 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar y Ddeiseb 'Amddiffyn Cerddoriaeth Fyw yng Nghymru' (60 munud)
- Dadl Fer – Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd) (30 munud)

**Dydd Mawrth 18 Gorffennaf 2017**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Dadl: Egwyddorion Cyffredinol Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) (60 munud)

- Dadl: Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) (5 munud)
- Dadl: Cyllideb Atodol Gyntaf 2017-18 (15 munud)
- Dadl: Cyfnod 4 Bil yr Undebau Llafur (Cymru) (15 munud)

**Dydd Mercher 19 Gorffennaf 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Cyfoeth Naturiol Cymru: Craffu ar Gyfrifon Blynyddol 2015-16 (60 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i ymestyn penodiad Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru (5 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl fer – Darren Millar (Gorllewin Clwyd) (30 munud)